Hysbysiad Prosesu Teg – Gwasanaethau Etholiadol

1. Pam ydym ni'n casglu a chadw eich gwybodaeth bersonol?

Mae dyletswydd gyfreithiol arnom i gadw a phroses gwybodaeth amdanoch chi'n unol â'r gyfraith. Byddwn yn defnyddio gwybodaeth am etholwyr a phleidleiswyr er mwyn i ni allu gwneud ein gwasanaethau statudol mewn cysylltiad â chadw'r Gofrestr Etholwyr yn gyfoes, gweinyddu etholiadau, adolygu ffiniau a gwasanaethau cysylltiedig eraill.

Byddwn yn cadw cofnodion ynghylch pleidleiswyr, ymgeiswyr a'u hasiantau, staff cyflogedig mewn etholiad a phobl y mae angen i ni eu talu. Mae'r wybodaeth a gasglwn yn galluogi inni wneud swyddogaethau penodol sydd o fewn ein cyfrifoldeb a rhoi gwasanaeth statudol i chi.

Rydym yn prosesu eich data:

- oherwydd bod angen prosesu ar gyfer contractau sydd gennym gydag unigolion; neu
- oherwydd bod ymrwymiad cyfreithiol arnom i wneud hynny; neu
- oherwydd bod angen gwneud hynny i wneud y gwaith hwn; a
- bydd categorïau arbennig o ddata personol yn cael eu prosesu am resymau budd cyhoeddus sylweddol gyda sail yng nghyfraith y DU.

Os na roddwch y wybodaeth sydd arnom ei hangen pan fyddwn yn gofyn amdani, byddwn yn methu eich cofrestru fel pleidleisiwr. Oherwydd bod rhoi'r wybodaeth yn ofyniad cyfreithiol, gall hyn hefyd arwain at ddirwy o hyd at £1,000.00.

2. Sut gaiff gwybodaeth amdanoch chi ei defnyddio.

Bydd y wybodaeth a ddarparwch yn cael ei phrosesu'n unol â Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol 2018, Deddf Cofrestru a Gweinyddu Etholiadol 2013, Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 a deddfwriaeth arall benodol i fathau arbennig o etholiadau a refferenda.

Bydd y wybodaeth a gasglwn gennych, gan ddibynnu ar eich cenedligrwydd, yn cael ei defnyddio i gynnwys eich enw ar y Gofrestr Etholwyr fel y gallwch bleidleisio mewn etholiadau a refferenda. Fe all y cofnodion a gadwn gynnwys –

- eich enw, cyfeiriad, dyddiad geni a chenedligrwydd;
- delweddau a sganiwyd o ffurflenni a lenwyd gennych
- manylion ynghylch eich cyfeiriad blaenorol, os dywedwch wrthym eich bod wedi symud
- gwybodaeth am breswylwyr eraill yn eich cyfeiriad
- a ydych dros 76 neu 16/17 oed
- a ydych wedi dewis aros oddi ar y gofrestr agored (olygedig)
  Mae'r Swyddog Cofrestru Etholiadol yn cadw dwy gofrestr – y gofrestr etholwyr a'r gofrestr agored (hefyd yn cael ei galw'n gofrestr olygedig). Mae esboniad llawn o'r mathau o gofrestr i'w gael ar wefan y Llywodraeth - https://www.gov.uk/electoral-register.

I gadarnhau pwy ydych, bydd y Gwasanaeth Digidol Cofrestru Etholiadol Unigol dan reolaeth Swyddfa'r Cabinet yn prosesu'r data a roddwch. Fel rhan o'r broses hon bydd eich data'n cael eu rhannu gyda chyflenwyr yr Adran Gwaith a Phensiynau a Swyddfa'r Cabinet sy'n brosesyddion data i'r Gwasanaeth Digidol Cofrestru Etholiadol Unigol. Gallwch gael rhagor o wybodaeth ynghylch hyn yma: https://www.registertovote.service.gov.uk/register-to-vote/privacy.

Efallai y bydd angen i ni rannu peth o'ch gwybodaeth gyda'n cyflenwr meddalwedd Idox Ltd.

Bydd eich gwybodaeth yn cael ei rhannu hefyd gyda'n hargraffwyr er mwyn argraffu'ch ffurflenni cofrestru etholiadol, cardiau pleidleisio ac, os byddwch yn pleidleisio drwy'r post, eich pecynnau pleidleisio drwy'r post.

Mae'r Gofrestr Etholwyr yn ddogfen gyhoeddus sydd yn agored i archwiliad cyhoeddus yn y Swyddfa Gwasanaethau Etholiadol. Mae rheolau perthnasol i archwilio'r ddogfen hon ac mae cyfyngiadau cyfreithiol yn berthnasol i sut mae modd defnyddio'r wybodaeth a gafwyd.

Rydym yn rhannu'r Gofrestr Etholwyr gyda'r rhai sydd â hawl i gael copi, yn ôl y gyfraith. Isod mae rhestr o sefydliadau ac unigolion â hawl i gael y Gofrestr Etholwyr –
Y Llyfrgell Brydeinig
Llyfrgell Genedlaethol Cymru
Awdurdod Ystadegau'r DU
Y Comisiwn Etholiadol
Comisiwn Ffiniau i Gymru
Swyddfa Ganolog Gwysio Rheithgorau
Cynrychiolwyr Etholedig
Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd
Ymgeiswyr mewn etholiadau
Pleidiau gwleidyddol cofrestredig
Cyngor Sir Penfro
Cynghorau Cymuned
Asiantaethau cadarnhau credyd

Byddwn hefyd yn gwneud unrhyw ddatgeliadau sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith a gallwn hefyd rannu'r wybodaeth hon gyda chyrff eraill sy'n gyfrifol am ddatgelu / atal twyll a phan fo'r datgelu er budd hanfodol i bwy bynnag sy'n ymwneud ag Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Mae'r gyfraith yn datgan ein bod yn gorfod gwerthu'r gofrestr olygedig i bawb sy'n gofyn amdani o dalu'r ffi benodedig. Y mae'r ffïoedd taladwy i'w cael yn www.sir-benfro.gov.uk/cyllid-a-busnes/ffioedd-a-thaliadau

Bydd eich data'n ddiogel a chydgyfrinachol bob amser a byddwn yn casglu'n unig y wybodaeth bersonol sydd ei hangen arnom i asesu'ch hawl i gael eich ychwanegu at y gofrestr etholwyr.

3. Sut fyddwn ni'n cael gwybodaeth arall?

Byddwn yn defnyddio ffynonellau data eraill sydd ar gael i ni i gadw'r Gofrestr Etholwyr mor gyfoes ag y bo modd. Mae'r ffynonellau hyn yn cynnwys –
Y Dreth Gyngor
Budd-dal tai
Tai
Cofrestr eiddo amlbreswyliaeth
Cofnodion y Cofrestrydd
Cartrefi preswyl / Cartrefi gofal a Chartrefi nyrsio
Cynllunio a rheoli adeiladu
Enwi a Rhifo Strydoedd
Addysg
Dywedwch Wrthym Unwaith

4. Am faint fyddwn ni'n cadw eich gwybodaeth?

Byddwn yn cadw hen gopïau o'r Gofrestr Etholwyr am 15 mlynedd; mae hyn yn gadael i ni brosesu ceisiadau oddi wrth bleidleiswyr tramor.

Gallwn ganiatáu mynediad at y gofrestr gyfredol yn unig.

Mae Archifdy Sir Benfro, y Llyfrgell Brydeinig a Llyfrgell Genedlaethol Cymru'n dal copïau o hen gofrestri (dros 10 oed) at ddibenion ymchwil.

Byddwn yn cadw'r wybodaeth a roddwyd i ni am y cyfnod priodol fel y datganwyd yn ein polisi cadw. Gallwch weld ein polisi cadw yn Etholiadau a Phleidleisio. Byddwn yn gwared eich gwybodaeth yn ddiogel pan nad oes ei hangen mwyach.

4. Mynediad at fy ngwybodaeth bersonol?

Gallwch ddod i wybod a ydym yn dal unrhyw wybodaeth bersonol trwy wneud cais mynediad yr unigolyn dan Reoliadau Cyffredinol Deddf Diogelu Data. I wneud cais am unrhyw wybodaeth bersonol sydd gennym mae angen i chi wneud eich cais yn ysgrifenedig a'i gyfeirio at:

Tîm Mynediad at Gofnodion
Cyngor Sir Penfro
Neuadd y Sir
Hwlffordd
SA61 1TP

5. Eich Hawliau.

Dan Reoliadau Diogelu Data Cyffredinol 2018, mae gennych hawliau fel unigolyn y gallwch eu harfer mewn cysylltiad â'r wybodaeth a ddaliwn amdanoch. Ni fydd pob hawl yn berthnasol a bydd yn dibynnu ar sail gyfreithiol prosesu eich data.

- Hawl i gael **Gwybod** – Mae gan unigolion hawl i gael gwybod am gasglu a defnyddio'u data personol. Mae hwn yn ofyniad eglurder allweddol dan y RhDDC.
- Hawl **Mynediad** – mae gennych hawl i ofyn am fynediad at, a chopi o, wybodaeth a ddaliwn amdanoch.
- Hawl i **Gywiro** – Mae gennych yr hawl i ofyn i'ch gwybodaeth gael ei chywiro.
- Hawl i **Ddileu** – Nid yw hon yn hawl ddiamod a bydd yn dibynnu ar y rheswm dros brosesu eich gwybodaeth bersonol.
- Hawl i Hygludedd Data – Mae hyn yn berthnasol yn unig i brosesu data sy'n digwydd trwy ddulliau awtomatig.
- Fe all hawl i **Gyfyngu** ar brosesu fod yn berthnasol – gallwch ofyn i ni roi'r gorau i brosesu eich data personol. Fodd bynnag, fe all hyn oedi neu ein hatal rhag cyflenwi gwasanaeth i chi. Byddwn yn ceisio cydymffurfio â'ch cais ond efallai y bydd gofyn i ni ddal neu brosesu gwybodaeth i gydymffurfio â'n dyletswyddau cyfreithiol.
- Hawl i **Wrthwynebu** – nid yw hon yn hawl ddiamod a bydd yn dibynnu ar y rheswm dros brosesu eich gwybodaeth bersonol.

6. Cwynion neu Ymholiadau.

Mae Cyngor Sir Penfro'n ymdrechu i gyrraedd y safonau uchaf wrth gasglu a defnyddio gwybodaeth bersonol. Oherwydd hyn, byddwn yn cymryd unrhyw gwynion a dderbyniwn ynghylch hyn o ddifrif. Rydym yn annog pobl i dynnu ein sylw os ydynt yn credu bod ein casglu neu ddefnyddio gwybodaeth yn annheg, yn gamarweiniol neu'n amhriodol.

Nid yw'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn rhoi manylion cyflawn o bob agwedd ar gasglu a defnyddio gwybodaeth bersonol gennym. Fodd bynnag, rydym yn barod i roi unrhyw wybodaeth neu esboniad ychwanegol sydd eu hangen. Dylid anfon unrhyw geisiadau am hyn i'r cyfeiriad isod:

Jo Hendy, Swyddog Diogelu Data
Cyngor Sir Penfro
Neuadd y Sir
Hwlffordd
SA61 1TP

E-bost: dataprotection@pembrokeshire.gov.uk
Ffôn: 01437 764551

Os ydych eisiau cwyno ynghylch sut ydym wedi prosesu eich gwybodaeth bersonol, gallwch gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth fel y corff statudol sy'n goruchwylio cyfraith diogelu data:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
SK9 5AF
E-bost caseworker@ico.org.uk Rhif Ffôn: 0303 123 1113

7. Newidiadau i'r hysbysiad preifatrwydd hwn.
Byddwn yn adolygu ein rhybudd preifatrwydd yn rheolaidd.